Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Rhiwbeina**

**Canolfan Eglwys y Methodistiaid**
**Heol Maes Y Deri**
**Rhiwbeina**
**Caerdydd**
**CF14 6JJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cylch Meithrin Rhiwbeina

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Rhiwbeina |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 7 Awst 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn cael profiadau cadarnhaol a gwerthfawr yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau defnyddiol am y gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt ac yn dilyn eu diddordebau, yn enwedig yn yr ardal awyr agored. Mae ganddynt gydberthnasau cynnes a chadarnhaol â'r staff ac maent yn rhyngweithio'n llwyddiannus â nhw. Mae'r plant yn gwneud cynnydd cyson dda o ran eu dysgu a'u datblygiad. Mae eu sgiliau cymdeithasol a'u sgiliau annibyniaeth yn ystod gweithgareddau wedi'u trefnu yn datblygu.

Mae'r staff yn effeithiol wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd bwrpasol ac effeithiol ac yn diwallu anghenion y plant mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth dda o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored ac maent yn seiliedig ar ddiddordebau'r plant gan fwyaf. Mae'r staff yn cadw cofnodion buddiol o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn groesawgar ac wedi'u trefnu'n bwrpasol. Mae'r staff yn dilyn arferion rheoli heintiau clir a chadarn. Mae'r amgylchedd ymhob rhan o'r lleoliad yn lân, yn ddiogel, ac yn addas ar gyfer y plant. Mae asesiadau risg ar waith ac yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i bob risg bosibl. Mae gan y lleoliad amrywiaeth o deganau ac adnoddau o ansawdd da y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn ddigonol ar hyn o bryd. Mae'r tîm presennol o staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd rhai o'r dogfennau ar gael, ond mae'r Person â Chyfrifoldeb wedi darparu'r dogfennau hyn erbyn hyn. Mae'r rhieni yn canmol y lleoliad a'r gofal y mae eu plant yn ei gael.

## Llesiant — Da

Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn frwdfrydig ac yn ymdopi'n llwyddiannus wrth ffarwelio â'u rhieni a'u gofalwyr. Maent wedi meithrin cydberthnasau cryf a chadarnhaol â'r staff, sy'n cael effaith werthfawr ar eu llesiant. Mae'r plant yn ymwybodol bod y staff bob amser yn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion ac yn ddigon hapus mynd atynt. Er enghraifft, mae'r plant yn gofyn cwestiynau i'r staff ac yn gwneud sylwadau iddynt yn ystod gweithgareddau. Yn ystod amser cylch, caiff y plant eu hannog yn gyson i ofyn am ganeuon penodol i'w canu gyda'i gilydd. Ym mhob rhan o'r lleoliad, mae bron pob plentyn wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol ac yn hapus i chwarae gyda'i gilydd dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r plant yn cymryd eu tro yn effeithiol ac yn hapus i gefnogi ei gilydd.

Mae'r plant yn hyderus wrth gyfathrebu â'r staff ac â'i gilydd. Maent yn dangos diddordeb brwd ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â phob profiad sydd ar gael iddynt. Mae bron pob un o'r plant yn dangos chwilfrydedd buddiol ac yn archwilio amrywiaeth o gyfleoedd chwarae gwerthfawr. Er enghraifft, roedd y plant yn ymgysylltu'n dda mewn sesiwn awyr agored yn yr ardal chwilod. Gofynnwyd cwestiynau penagored i'r plant megis pa chwilen allai fod o dan y bloc pren? Roedd y staff yn ymateb i'r atebion a'r awgrymiadau ac yn gweithredu mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r plant yn gwybod y caiff eu hwyliau a'u dymuniadau eu hystyried yn llawn, ac y gallant benderfynu pa weithgareddau i gymryd rhan ynddynt.

Caiff ymdrechion y plant i gyfathrebu eu gwerthfawrogi a'u deall, ac mae'r staff yn ymateb iddynt. Er enghraifft, yn ystod amser cylch, anogwyd y plant i awgrymu caneuon i'w canu, gan gynnwys ceisiadau i ganu cân Nadolig. Yn yr awyr agored, awgrymodd y plant y gallai fod teigr o dan un o'r cerrig yn yr ardal chwilod, ac ymatebodd y staff yn fedrus gan ofyn cwestiynau am y pryfed lludw a oedd yno. Caiff y plant eu hannog i ymchwilio gan ddefnyddio rhestrau wedi'u lamineiddio o chwilod i chwilio amdanynt, chwyddwydrau, ysbienddrychau, a boncyffion pren pwrpasol sy'n ddigon ysgafn i'r plant eu symud. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser ac yn ymateb yn gadarnhaol i anogaeth gan y staff.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn llwyddiannus gyda chymorth y staff yn y lleoliad. Er enghraifft, tra'n aros am eu byrbryd ac ar ôl golchi eu dwylo'n annibynnol, roedd y plant yn cael eu hannog i ddewis llyfr ac i fynd â'r llyfr hwnnw at y bwrdd. Caiff y plant hefyd eu hannog yn helaeth i wisgo eu hunain cyn mynd allan a chânt eu herio i ddod o hyd i'r dillad priodol. Er enghraifft, gofynnwyd iddynt dynnu eu hesgidiau er mwyn gweld pa rif oedd wedi'i nodi arnynt. Wedyn cawsant eu hannog i ddod o hyd i esgidiau o'r un maint. Caiff y plant eu hannog i fwyta'n annibynnol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni chânt eu hannog i weini eu bwyd eu hunain. Caiff y plant eu hannog yn weithredol i helpu i dacluso'r adnoddau ar ddiwedd y sesiwn.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn llwyddiannus er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac yn deall y gweithdrefnau diogelu yn hyderus. Mae'r staff yn cadw cofnodion manwl o ddigwyddiadau a damweiniau ac yn rhoi crynodebau ohonynt yn ffeiliau'r plant. Ar hyn o bryd, nid yw'r cofnodion hyn yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad, ond mae trefniadau wrthi'n cael eu datblygu yn hyn o beth. Rhoddir gwybod i'r rhieni am ddamweiniau a digwyddiadau mewn modd amserol ac mae'r staff yn cadw cofnodion o anafiadau sy'n bodoli eisoes. Mae gan y staff dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig dilys sy'n eu galluogi i ddelio â damweiniau yn briodol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau effeithiol ar waith ar gyfer storio meddyginiaethau ac ar gyfer cofnodi manylion i ddangos bod meddyginiaethau wedi cael eu rhoi'n ddiogel, gan gynnwys y dosau diwethaf a roddwyd. Caiff meddyginaethau eu storio yn eu cynwysyddion gwreiddiol a'u labelu ag enw'r plentyn a'r dos i'w roi. Mae gan y staff gymhwyster hylendid bwyd perthnasol ac maent yn dilyn gweithdrefnau glanhau addas fel rhan o'r prosesau rheoli heintiau. Er enghraifft, maent yn sicrhau y caiff y byrddau eu glanhau cyn ac ar ôl eu defnyddio. Mae'r byrbrydau a ddarperir yn iach a chânt eu paratoi'n ffres ar y safle. Maent yn cynnwys amrywiaeth o ffrwythau, craceri a dewis o laeth neu ddŵr. Mae'r plant yn eistedd gyda'r staff i ganu am olchi eu dwylo, gan eu golchi cyn ac ar ôl bwyta. Mae'r staff yn glanhau pob ardal weithgareddau cyn ac ar ôl ei defnyddio. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r staff yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) fel mater o drefn wrth baratoi a gweini bwyd i'r plant.

Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cryf a chadarnhaol â'r plant ac maent yn ymddwyn mewn ffordd garedig, ofalgar ac amyneddgar tuag atynt. Maent yn cefnogi sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad y plant, ac maent yn ymgysylltu â nhw'n effeithiol ac yn fedrus yn ystod gweithgareddau ac yn ystod amser byrbryd. Er enghraifft, roedd y staff a'r plant yn trafod pynciau fel crocodeils a ph'un a ydynt yn byw ar y tir neu yn y dŵr. Awgrymodd y staff y gellid ymchwilio i hyn ymhellach dros y dyddiau nesaf. Yn ystod amser byrbryd, mae'r staff yn ymgysylltu â'r plant ac yn dangos sgiliau cymdeithasol dagan gynnig cyfleoedd effeithiol i arsylwi ar y plant ac i gofnodi gwybodaeth ar gyfer y rhieni. Mae'r staff yn gweithredu strategaethau cadarnhaol yn unol â'u polisi rheoli ymddygiad ac maent yn canmol ac yn annog y plant. Mae ardal awyr agored werthfawr ar gael i'r plant ei defnyddio, lle caiff cyfleoedd gwerthfawr eu cynnig i hyrwyddo eu llesiant corfforol.

Mae'r staff yn annog y plant i chwarae, dysgu a datblygu ac yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau ar eu cyfer. Er enghraifft, garddio, canu, celf a chrefft a chwarae rôl. Mae'r staff yn ymgysylltu'n effeithiol iawn â'r plant yn ystod gweithgareddau ac yn arsylwi arnynt er mwyn olrhain cynnydd ac er mwyn nodi'r camau nesaf yn eu dysgu a'u datblygu. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o sut i ddiwallu anghenion y plant y mae angen cymorth ychwanegol

arnynt, gan weithio'n agos gyda'r rhieni ac asiantaethau allanol. Mae'r lleoliad yn dathlu gwyliau megis Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac yn dysgu am wledydd er mwyn helpu'r plant i ddysgu am wahanol ddiwylliannau o amgylch y byd.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel. Caiff ymwelwyr eu gadael i mewn i'r prif adeilad gan aelodau o staff drwy fynedfa ddiogel, a gofynnir iddynt lofnodi i mewn ac allan gan nodi eu hamseroedd cyrraedd a gadael. Gall y plant gyrraedd yr ardal awyr agored werthfawr yn ddiogel ac mae ffens a sgriniau priodol o'i hamgylch. Mae'r asesiadau risg ar gyfer y lleoliad yn gyfredol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys gwiriadau dyddiol wedi'u llofnodi, asesiadau o'r ardal awyr agored a gwiriadau ac asesiadau perthnasol ar gyfer unrhyw ymweliadau posibl â'r ardal leol. Caiff gwiriadau diogelwch eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol, gan gynnwys profion cyfarpar tân, profion nwy a phrofion trydanol. Mae pob rhan o'r safle yn lân ac yn ddiogel  ac mae pob aelod o'r staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol, gan gynnwys sychu'r byrddau a sgubo'r llawr cyn ac ar ôl i'r plant eu defnyddio. Ar hyn o bryd, nid oes gardiau priodol ar rai o'r drysau i atal unigolion rhag dal eu bysedd. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn briodol, ac mae pob aelod o'r staff yn dilyn canllawiau i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y plant.

Mae'r safle yn gyson gynnes a chroesawgar ac yn darparu amgylchedd gwerthfawr i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd mawr dan do ar ffurf cynllun agored, sy'n sicrhau y gall y plant fanteisio ar yr holl weithgareddau ac fe'i defnyddir yn fedrus i hybu dysgu a datblygiad y plant. Mae'r ardal hon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i gefnogi datblygiad corfforol a chwilfrydedd y plant, yn ogystal â'u dysgu yn gyffredinol. Er enghraifft, ffrâm ddringo, ardal dywod a basgedi ar gyfer amrywiaeth o anifeiliaid môr, fferm a jyngl. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys ardaloedd megis ardal chwilod, cyfleoedd i ddefnyddio teganau mawr ac i ddefnyddio amrywiaeth o weadau megis pridd a thywod. Mae adnoddau effeithiol iawn yn yr ardal hon ac mae'n cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Mae'r ardal hon yn cynnig profiadau gwerthfawr i'r plant ac mae'r adnoddau sydd ar gael yn cyfoethogi'r cyfleoedd hyn. Caiff y rhan fwyaf o'r adnoddau eu storio ar lefelau priodol fel y gall y plant gael gafael arnynt a gwneud dewisiadau annibynnol.

Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth helaeth o deganau ac adnoddau sy'n briodol ar gyfer oedran y plant ac sy'n llwyddo i gynnal eu diddordeb. Mae'r rhain yn cynnwys blociau adeiladu, adnoddau gwisgo i fyny, hambyrddau twff a llyfrau priodol. Mae'r lleoliad yn defnyddio deunyddiau naturiol a chynaliadwy yn effeithiol fel rhan o'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael i'r plant, yn enwedig yn yr ardal awyr agored. Mae'r dodrefn a'r cyfarpar yn briodol ac o ansawdd da. Mae'r teganau a'r cyfarpar chwarae i gyd yn lân ac mewn cyflwr da. Gwelsom y staff yn glanhau'r adnoddau a'r ardaloedd yn gyson yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn ddigonol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fedrus ac yn brofiadol ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad a disgwyliadau clir ar gyfer y staff. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd Unigolyn Cyfrifol wedi'i benodi. Mae'r lleoliad bellach wedi gwneud hynny. Mae'r datganiad o ddiben wrthi'n cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r rhieni am y ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y staff yn eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni chaiff dyddiadau adolygu nac enwau'r adolygwyr eu cofnodi'n gyson ar bob polisi. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau priodol ar waith ar gyfer cadw cofnodion, gan gynnwys contractau'r plant ac asesiadau risg. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi gwybod yn gyson i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau o bwys fel achosion o gau'r lleoliad dros dro a newidiadau i'r amseroedd agor. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithredu i sicrhau eu bod yn cyflwyno hysbysiadau fel y nodir yn y rheoliadau Gofal Plant. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol, y caiff plant eu diogelu ac y caiff eu llesiant ei hyrwyddo.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau defnyddiol ar waith i werthuso'r gwasanaeth. Maent yn hunanwerthuso'r lleoliad yn gyson ac yn gofyn i'r rhieni, y staff, a'r plant am adborth. Caiff pob darn o wybodaeth ei defnyddio'n briodol yn yr adroddiad ar ansawdd y gofal. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella megis rhoi cyfleoedd gwell i'r plant drwy well gwaith cynllunio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwerthfawrogi eu staff ac yn sicrhau bod staff cymwys a phrofiadol yn bresennol i wneud yn siŵr bod y plant bob amser yn cael gofal priodol. Mae ethos o waith tîm i'w weld ymhlith y staff, ac maent yn gweithio mewn ffordd bwrpasol i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod prosesau recriwtio cadarn ar waith. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd rhai darnau pwysig o wybodaeth wedi'u cynnwys yn ffeiliau'r staff i sicrhau eu bod yn gwbl addas i weithio gyda phlant. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithredu i sicrhau eu bod yn cyflwyno hysbysiadau fel y nodir yn y rheoliadau Gofal Plant. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cyflwyno'r wybodaeth berthnasol i AGC. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol y staff ac i nodi gofynion o ran hyfforddiant. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan aelodau'r tîm rheoli ac y gallant siarad a thrafod unrhyw bryderon yn hyderus â nhw. Caiff cyfarfodydd staff eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelu ac er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol a thrafod unrhyw faterion sy'n codi.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni ac asiantaethau allanol yn werthfawr. Mae'r staff yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r rhieni bob dydd am weithgareddau ac yn rhannu gwybodaeth gyffredinol â nhw. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal y mae eu plant yn ei gael. Caiff cardiau eu harddangos o amgylch y feithrinfa sy'n dathlu cyflawniadau'r staff ac yn rhannu diolchiadau gan rieni i'r tîm o staff. Er enghraifft, "*Cylch will always hold a special place in our heart*" a "*Loved attending the Cylch*". Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi creu cysylltiadau â'r awdurdod lleol, ysgolion cynradd lleol, a'r gymuned megis y Capel lleol, siopau, a rhandiroedd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Cafodd ffeiliau pedwar aelod o staff eu harchwilio ac nid oedd pob geirda ar gael yn ffeiliau tri ohonynt. Nid oedd gan ffeiliau pob aelod o'r staff lun diweddar er mwyn helpu i gadarnhau pwy ydoedd. Cafodd hyn ei ddatrys erbyn yr ymweliad ar yr ail ddiwrnod. | Newydd |
| 31 | Yn ystod yr arolygiad, rhoddwyd gwybod i'r Arolygwyr nad yw'r holl wybodaeth sydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar hyn o bryd yn gyfredol, gan gynnwys gwybodaeth am newidiadau o ran staff a'r tîm rheoli. Roedd y lleoliad wedi gorfod cau ar 16 ac 17 Tachwedd oherwydd salwch ac ni chafodd AGC ei hysbysu am hyn. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 22 - Yr amgylchedd | Sicrhau bod gardiau priodol ar bob drws yn y lleoliad er mwyn lleihau'r risg i lesiant corfforol y plant. |
| Safon 8 - Maeth a lles | Datblygu cyfleoedd ar gyfer annibyniaeth y plant, yn enwedig yn ystod amser byrbryd. |
| Safon 21 - Hysbysiadau am ddigwyddiadau o bwys | Sicrhau bod AGC yn cael gwybod am bob digwyddiad o bwys yn unol â'r rheoliadau (Rheoliad 31, Atodlen 4) |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
| --- |
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff pob polisi ei adolygu'n rheolaidd a bod y dyddiad adolygu ac enw'r adolygwr wedi'u nodi'n glir |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/03/2024